

Arolygiad o Wasanaeth Anableddau Dysgu'r GIG (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Lleoliad Preswyl y GIG

Bro Myrddin

Dyddiad arolygu: 2 Ebrill 2019

Dyddiad cyhoeddi: 3 Gorffennaf 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	20
4.	Beth nesaf?.....	23
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad anabledau dysgu dirybudd o leoliad preswyl ar 2 Ebrill 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y staff yn rhoi gofal ag urddas i'r cleifion yn y lleoliad a oedd yn ddiogel ac yn glinigol effeithiol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid ymgorffori trefniadau archwilio a llywodraethu er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud i'r broses o gwblhau dogfennaeth.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn helpu'r cleifion i wella
- Datblygu cynlluniau gofal unigol manwl
- Diwallu anghenion maeth a hydradu cleifion unigol
- Rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol
- Grŵp o staff sefydledig ac ymroddedig gydag ethos gweithio fel tîm cryf.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Yr ystod o wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn y lleoliad
- Trefniadau archwilio a llywodraethu
- Y broses ar gyfer cwblhau dogfennaeth glinigol
- Cyfraddau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Y broses gyfnodol o gwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth a arolygwyd yn rhan o'r gwasanaethau anableddau dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'n lleoliad preswyl ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl sydd ag anghenion gofal cymhleth.

Roedd pedwar claf yn byw yno ar adeg yr arolygiad.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr uned sy'n nyrs cofrestredig a thîm o weithwyr cymorth gofal iechyd. Mae gwasanaethau eraill y bwrdd iechyd a gwasanaethau cymunedol yn cyfrannu yn ôl yr angen.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau addas ar gael yn y lleoliad ac yn y gymuned.

Gellir gwella amrywiaeth y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn y lleoliad i gleifion a'u teuluoedd.

Cadw'n iach

Roedd trefniadau sefydledig ar waith i reoli gofal cleifion yn y lleoliad preswyl.

Roedd meddyg ymgynghorol dynodedig yn goruchwyllo gofal pob claf. Roedd timau ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith y bwrdd iechyd yn cyfrannu yn ôl yr angen. Lle y bo angen, roedd clinigau epilepsi yn cael eu cynnal i adolygu cyflwr pob claf.

Fel rhan o'r gofal preswyl, roedd y cleifion yn cael defnyddio amrywiaeth o wasanaethau iechyd corfforol yn y gymuned. Roedd y meddyg teulu lleol yn dod i weld cleifion yn y lleoliad, neu byddai'r cleifion yn mynd i'r feddygfa leol os oedd modd. Roedd y cleifion yn mynd at y deintydd a'r pediatrydd, ac roedd optegydd yn ymweld â'r lleoliad unwaith y flwyddyn.

Roedd gan bob claf Basbort Ysbyty¹. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am iechyd corfforol y claf unigol.

¹ Dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am rywun sydd ag anabledd dysgu yw pasbort ysbyty ac mae'n darparu gwybodaeth bwysig i staff ysbyty am yr unigolyn hwnnw a'i iechyd pan fydd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.

Roedd cynlluniau gofal iechyd corfforol manwl yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion unigol a oedd yn defnyddio adnoddau asesu yn seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol priodol, gwaith monitro a'r driniaeth a oedd wedi'i rhoi. Roedd hyn yn cynnwys pwysedd rheolaidd, arsylwadau hanfodol megis pwysedd gwaed a chyfradd curiad y galon. Fodd bynnag, roedd gan rai siartiau monitro fylchau yn y cofnodion heb gofnod yn nodi'r rheswm dros hynny. Felly, nid oedd yn glir ai'r staff oedd yn peidio â cheisio cymryd y mesuriadau, neu'r claf a oedd yn gwrthod.

Cymerodd y cleifion ran mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden yn yr ysbyty ac yn y gymuned leol. Cymerodd staff yr amser i ddatblygu a hwyluso gweithgareddau a oedd yn adlewyrchu diddordebau'r cleifion unigol. Roedd gerddi a oedd yn cynnig lle awyr agored i'r cleifion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi gosod nifer o fyrddau a chyfleusterau bwydo adar a oedd o ddiddordeb penodol i un claf. Nid oedd llawer o gyfarpar na chyfleusterau synhwyraidd yn y lleoliad. Byddai darparu amrywiaeth o gyfarpar a chyfleusterau synhwyraidd yn y lleoliad, gan gynnwys yr ardd, o fudd i'r cleifion ac felly dylai'r bwrdd iechyd ystyried hyn.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw amrywiaeth o fentrau hybu iechyd, diogelu a gwella, a oedd yn fuddiol i lles y cleifion yn y lleoliad. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn hawdd yn y lleoliad ynglŷn â'r rhain. Byddai darparu'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ymwelwyr, fel teulu a ffrindiau, er mwyn deall beth y mae'r staff yn ei wneud i hyrwyddo lles y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amrywiaeth o fentrau hybu iechyd, diogelu a gwella sydd ar gael i gleifion yn cael eu harddangos yn y lleoliad.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod yr holl staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Gwelsom fod cryn ymdrech wedi'i wneud i sicrhau bod yr ystafelloedd gwely hyn wedi'u haddasu'n bersonol yn unol â dymuniadau'r claf. Fodd bynnag, oherwydd maint dwy ystafell wely, nid

oedd llawer o le storio yn eu hystafelloedd ac felly, nid oedd digon o le i gael cwpwrdd dillad. Roedd angen i'r ddau glaf hyn storio rhai o'u dillad mewn ystafell arall, lle'r oedd ganddynt gwpwrdd dillad yr un. Oherwydd hyn, gwelsom fod y gawod yn yr ystafell wely gysylltiedig yn cael ei defnyddio i storio dillad un claf, nad yw'n briodol.

Roedd gan y lleoliad ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Fodd bynnag, ar un achlysur, roeddem yn gallu clywed y staff yn siarad â'r cleifion ac yn trafod unigolion ymysg ei gilydd neu dros y ffôn mewn ardaloedd cymunedol yn y lleoliad. Mae'n rhaid i'r staff ystyried natur gyfrinachol eu trafodaethau a sicrhau nad ydynt yn cael eu clywed gan gleifion neu ymwelwyr eraill.

Roedd ystafelloedd hefyd ar gael lle y gallai cleifion gyfarfod â theulu a ffrindiau.

Roedd dau faddon yn y lleoliad. Roedd un yn addas i'w ddefnyddio gyda theclynnau codi er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o olchi cleifion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan bob claf eu set eu hunain o dywelion a oedd yn hawdd eu hadnabod yn ôl eu lliw. Fodd bynnag, nid oedd digon o le storio addas ar gael i'r rhain gael eu storio a'u gwahanu'n daclus. Ar adeg yr arolygiad, roedd y tywelion wedi'u pentyrru mewn modd anhrefnus yn yr ystafell ymolchi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cynllun yr ystafelloedd gwely er mwyn sicrhau bod gan bob claf ddigon o le storio yn eu hystafelloedd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gadw preifatrwydd ac urddas y cleifion pan fyddant yn trafod eu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gyfer tywelion y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Nid oedd llawer o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion na'u teuluoedd a'u gofawyr. Dylid arddangos gwybodaeth am sefydliadau a all gefnogi'r cleifion fel gwasanaethau eirioli, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Dylid hefyd arddangos gwybodaeth am sut i godi pryder, gan gynnwys proses Gweithio i Wella y GIG.²

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i gleifion a'u teuluoedd am gyrff allanol fel eiriolaeth annibynnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i gleifion a'u teuluoedd am broses Gweithio i Wella y GIG.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd yr amser i ddefnyddio iaith ac arwyddion priodol i'w helpu i gyfathrebu â'r cleifion, y mae gan rai ohonynt alluoedd cyfathrebu cyfyngedig.

Roedd rhai arwyddion ar ffurf lluniau ar ddrysau drwy'r lleoliad a oedd yn rhoi cymorth i gleifion adnabod yr ystafell. Roedd dau aelod o'r staff wedi cael eu nodi'n ddiweddar fel hyrwyddwyr cyfathrebu ar gyfer y lleoliad.

Roedd pasbortau cyfathrebu o'r enw Llyfrau Cyfathrebu ar gael yn yr uned, ond nid oeddent yn cael eu harddangos yn agored ar ddiwrnod yr arolygiad. Rydym wedi cael gwybod bod y pasbortau hyn bellach yn cael eu harddangos yn y lolfeydd cymunedol.

² Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon am driniaeth yn y GIG, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.

Byddai'n fuddiol i'r cleifion pe bai cymhorthion cyfathrebu a Straeon Synhwyrdd³ yn cael eu datblygu er mwyn helpu dealltwriaeth claf ymhellach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried datblygu cymhorthion cyfathrebu eraill a phasbortau cyfathrebu.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd pwyslais ar ofal wedi'i addasu i gleifion unigol, yn yr arferion cynllunio gofal a'r arferion sefydliadol.

Roedd gweithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau'r cleifion unigol a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn y lleoliad ac yn y gymuned.

Hawliau pobl

Roedd arferion y staff a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Roedd cynllun y lleoliad a pholisïau'r bwrdd iechyd yn sicrhau amgylchedd hygyrch i bobl a allai fod ganddynt anghenion symudedd neu synhwyrdd.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol at ddefnydd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd cofnodion clir o asesiadau er budd pennaf y claf yn cael eu cwblhau er mwyn diogelu hawliau'r claf mewn agweddau ar eu gofal lle nad oedd ganddynt lawer o alluedd meddyliol.

Roedd trefniadau eiriolaeth ar waith hefyd er mwyn cefnogi'r cleifion.

³ Mae straeon synhwyrdd yn adrodd stori drwy ddefnyddio geiriau ac adnoddau ysgogi synhwyrdd. Fel arfer, dim ond rhai brawddegau sydd mewn stori synhwyrdd (10 neu lai) a chaiff pob brawddeg ei pharu ag adnodd ysgogi synhwyrdd

Gwrandu a dysgu o adborth

Disgrifodd yr uwch staff ffyrdd anffurfiol ac ad hoc o gael adborth gan gleifion a'u perthnasau am eu profiadau o'r gofal a ddarperir.

Roedd rheolwr yr uned wedi cyflwyno ffurflen adborth yn ddiweddar er mwyn casglu barn perthnasau'r cleifion. Cawsom wybod y byddai hyn yn cael ei defnyddio i sicrhau bod perthnasau yn gallu rhoi adborth rheolaidd pe dymument.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau yn y broses o ddogfennu'r gofal a ddarperir a'r prosesau a'r gweithdrefnau clinigol a ddefnyddir i ddangos gwell tystiolaeth o'r rhain.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Drwy gydol yr arolygiad, roedd y lleoliad yn ddiogel gyda'r drysau dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd mynediad i'r lleoliad a'r lle cyfan ar un lefel er mwyn cynorthwyo unrhyw un ag anghenion symudedd. Roedd yr ardaloedd yn rhydd rhag peryglon baglu amlwg.

Ar ôl cyrraedd y lleoliad, gwnaeth yr aelod o staff a wnaeth ein croesawu gadarnhau pwy oeddem er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu mynd i mewn. Roedd yr aelod o'r staff yn gallu darparu'r holl wybodaeth roedd ei hangen arnom ynghylch y cleifion.

Roedd y lleoliad yn defnyddio system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd, ac roedd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi ar y system honno. Roedd y system yn galluogi'r broses o ddadansoddi digwyddiadau gan gynnwys; natur y digwyddiad, ble roedd y digwyddiad, dyddiadau ac amseroedd a phwy oedd yn rhan o'r digwyddiad, ac unrhyw gamau roedd angen eu cymryd a gwersi i'w dysgu, er mwyn lleihau'r risg y bydd digwyddiadau o'r fath yn codi eto.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod angen glanhau ardaloedd penodol o'r lleoliad yn drylwyr, er i ni gael gwybod bod hyn wedi digwydd tua mis ynghynt. Cadarnhaodd rheolwr yr uned eu bod wedi uwchygyfeirio eu pryderon ynghylch effeithiolrwydd glanhau'r uned yn drylwyr.

Roedd nifer o ardaloedd, yn enwedig ystafelloedd storio neu ystafelloedd gwely gwag yn anniben a di-drefn. Byddai'n fuddiol i'r lleoliad gael adolygiad o drefn

storio er mwyn hwyluso storio trefnus a galluogi prosesau a gweithdrefnau glanhau effeithiol.

Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd oedd yn gyfrifol am lanhau'r lleoliad o ddydd i ddydd. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgymryd â thasgau glanhau. Fodd bynnag, er bod templedi o amserlenni glanhau manwl, nid oedd y staff yn gallu darparu fersiynau cyflawn o'r rhain. Heb amserlenni glanhau cyflawn, ac yn ôl yr hyn a welsom yn y lleoliad, nid ydym wedi cael sicrwydd bod hyn wedi'i gwblhau mewn modd systematig nac amserol, er mwyn sicrhau bod yr holl dasgau angenrheidiol wedi'u cwblhau'n ddigonol.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn ardaloedd perthnasol. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff a gwelsom hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl y gofyn hefyd.

Roedd cyfleusterau golchi dillad yn y lleoliad, ac roedd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn cwblhau'r dyletswyddau golchi dillad. Cadarnhaodd y staff fod dillad brwnt yn cael eu rhannu a'u golchi ar wahân i eitemau nad oeddent yn frwnt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n drylwyr ac yn effeithiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn dilyn amserlenni glanhau ac yn eu cwblhau.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod y cleifion yn y lleoliad yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion maeth a hydradu.

Caiff prydau bwyd eu darparu i'r cleifion yn y lleoliad. Darperir bwydlen pedair wythnos ond dywedodd y staff eu bod yn gallu bod yn hyblyg ac addasu prydau bwyd er mwyn bodloni dymuniadau'r cleifion. Roedd dewisiadau bwyd y cleifion wedi'u nodi yn eu dogfennau "dyma fi" unigol. Fodd bynnag, drwy ein sgysiau â'r staff, awgrymwyd bod y prydau bwyd yn cael eu newid i adlewyrchu dewisiadau'r staff ar ddyletswydd, a oedd yn bwyta gyda'r cleifion fel rhan o weithgarwch therapiwtig.

Mae camau ychwanegol o fewn gweithgareddau therapiwtig y cleifion yn cynnwys y cleifion yn siopa am eu bwyd a'u cynhwysion. Yn ychwanegol at hynny, mae rhai o'r cleifion hefyd yn cynorthwyo'r staff i baratoi'r prydau bwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi gan y staff i gael diodydd a byrbrydau drwy gydol y dydd a'r nos.

Cadarnhaodd y staff fod timau deietegol a therapi lleferydd ac iaith y bwrdd iechyd yn cyfrannu os oedd angen. Lle y bo angen, gwelsom fod dogfennaeth diabetig ar waith ac wedi'i chwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewisiadau bwyd y cleifion yn cael eu cofnodi'n briodol er lles y claf, ac nid er lles y staff.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn y lleoliad yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu camdefnyddio, os oedd angen y rhain. Nid oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu defnyddio yn y lleoliad a oedd yn berthnasol i'r categorïau hyn yn ystod ein harolygiad.

Roedd oergell feddyginiaethau y gellid ei chloi yn y lleoliad, er nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu defnyddio yr oedd angen eu cadw yn yr oergell yn ystod ein harolygiad. Cawsom ein sicrhau o'r hyn a welsom a drwy siarad â'r staff y byddai'r oergell yn cael ei chloi os oedd yn cynnwys meddyginiaeth a bod tymheredd yr oergell yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Roedd Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) yn cael eu cwblhau yn gywir gan amlaf. Gwnaethom nodi un hepgoriad diweddar lle nad oedd aelodau o'r staff wedi cofnodi p'un a oedd y claf wedi cael ei feddyginiaeth, neu'r rheswm pam na ddigwyddodd hyn. Cadarnhaodd rheolwr yr uned y byddai'n ymchwilio i'r hepgoriad hwn ac yn egluro'r sefyllfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff bob amser yn cwblhau'r holl adrannau perthnasol ar y siart meddyginiaeth yn ôl polisi'r bwrdd iechyd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant. Fodd bynnag, roedd angen i nifer o'r staff gwblhau hyfforddiant gloywi. Roedd yr ystadegau hyfforddiant gorfodol yn dangos cyfradd cydymffurfio o 62.5%. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y lleoliad yn mynd i'r afael â hyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod y staff yn y lleoliad yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom fod prosesau clinigol a threfniadau llywodraethu wedi cael eu sefydlu ac yn cael eu hymgorffori i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau llywodraethu hyn yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Manylir ar y diffygion hyn, ynghyd â champau gweithredu'r bwrdd iechyd, yn Atodiad C.

Cadw cofnodion

Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i drefn cofnodion y cleifion.

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion yn bennaf, a'r rheini wedi'u storio a'u cadw yn swyddfa'r nyrsys dan glo. Cafodd dogfennaeth electronig ei diogelu gyda chyfrinair.

Roedd y staff yn cwblhau cofnodion ffeithiol. Roedd cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn fanwl iawn ac roeddent yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â gofal pob claf.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r broses o ddogfennu'r gofal a ddarperir a'r prosesau a'r gweithdrefnau clinigol a ddefnyddir i ddangos gwell tystiolaeth o'r rhain. Gwelsom fylchau mewn rhai siartiau monitro cleifion, gan gynnwys cofnodion ysgarthu. Nid oedd unrhyw reswm clir yn nodi pam nad oedd y rhain wedi cael eu cwblhau na pham nad oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd gan y staff.

Yn ychwanegol at hynny, roedd y ddwy set o ffeiliau a adolygwyd gennym yn anhrefnus gyda gwybodaeth wedi'i ffeilio'n anghywir.

Ym mlaen prif ffeil pob claf roedd taflen lofnodi i'r staff i nodi bod pob aelod o'r staff wedi darllen y wybodaeth yn y ffeil. Fodd bynnag, roedd rhai o'r llofnodion yn dyddio'n ôl i 2017, lle y byddai adrannau o'r ffeil wedi cael eu diweddarau ers hynny. Felly, nid oedd yn glir pa mor werthfawr oedd y daflen lofnodi hon os oedd yn dangos bod y staff wedi darllen gwybodaeth a oedd bellach wedi dyddio. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr yr uned a ddywedodd y byddai'n adolygu'r system hon.

Roedd llawer o hen gofnodion cleifion yn cael eu cadw yn y lleoliad, er gwaethaf y prinder lle. Dywedodd y staff ei bod yn anodd archifo cofnodion oherwydd prinder lle yn archif cofnodion cleifion y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn effeithio ar gadw cofnodion yn effeithiol yn y lleoliad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau dogfennaeth monitro'r cleifion neu'n rhoi rhesymau pan nad oeddent yn gallu gwneud.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei storio mewn ffordd systematig yng nghofnodion y cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu defnyddio'r cyfleuster archifo er mwyn cadw cofnodion yn effeithiol yn y lleoliad.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal dau glaf. Roedd yn glir bod y gofal yn cael ei bersonoli ar gyfer yr unigolyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth monitro iechyd corfforol ei chofnodi.

Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal manwl a oedd yn cofnodi anghenion gofal unigol. Roedd cofnodion y cleifion yn nodi hoff a chas bethau'r cleifion, gweithgareddau bywyd beunyddiol, risgiau unigol a sut i'w rheoli. Roedd asesiadau'r cleifion yn fanwl, ac yn dangos gwybodaeth hanesyddol hefyd.

Roedd y ddwy set o ffeiliau yn nodi cydgysylltydd gofal y claf. Roeddent hefyd yn cynnwys tystiolaeth o asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a bod yr asesydd wedi treulio amser gyda'r claf unigol. Roedd dogfennaeth yn esbonio'r rhesymau dros ddefnyddio trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn glir.

Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod aelodau o'r teulu wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn ymwneud â gofal y claf. Roedd yna dystiolaeth o ymweliadau eirioli annibynnol hefyd.

Roedd pob set o gofnodion y cleifion yn dangos bod anghenion corfforol y cleifion yn cael eu diwallu. Gwelsom fod anghenion cleifion unigol yn cael eu nodi gydag asesiadau manwl. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oed gwybodaeth monitro'r cleifion yn cael ei chofnodi fel sy'n ofynnol bob tro.

Ar gyfer un claf, roedd cynllun gofal manwl ar waith ar gyfer ei Gastrostomi Endoscopig Drwy'r Croen (PEG) rhannol⁴ a'i drefn fwydo. Roedd Pasbort bwydo PEG yn bresennol hefyd, a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r staff yr oedd yn hawdd cyfeirio ati ynglŷn â bwydo PEG, gwybodaeth datrys problemau ac â phwy y dylid cysylltu am ragor o wybodaeth/cymorth os oes angen.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, gwelsom fylchau mawr mewn rhai darnau o wybodaeth monitro a dim rheswm pam roedd hyn wedi digwydd na pha gamau oedd wedi cael eu cymryd. Nid oedd siartiau monitro pwysau yn nodi p'un a oedd mesuriadau pwysau yn cael eu cwblhau gyda'r claf wedi gwisgo, wedi gwisgo'n rhannol neu heb ddillad. Dylid nodi hyn er mwyn gwella cysondeb a monitro'r darlleniadau.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Fel y nodwyd uchod, roedd dogfennaeth gyfreithiol at ddefnydd y Ddeddf Iechyd Meddwl neu Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

⁴Mae gastrostomi endoscopig drwy'r croen (PEG) yn driniaeth feddygol endoscopig lle y trosglwyddir tiwb (tiwb PEG) i stumog y claf drwy wal yr abdomen, fel arfer er mwyn darparu ffordd o fwydo pan nad yw cymeriant drwy'r geg yn ddigonol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd tîm o staff sefydledig gydag ethos gweithio fel tîm cryf.

Roedd trefniadau archwilio a llywodraethu yn cael eu llunio ond roedd angen eu hymgorffori mewn ymarfer.

Roedd y staff wedi cwblhau adolygiadau perfformiad blynyddol, ond roedd angen gwneud gwelliannau mewn rhai o'r meysydd hyfforddiant gorfodol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr nyrsio newydd ei benodi yn gyfrifol am reoli'r lleoliad o ddydd i ddydd. Roedd y tîm nyrsio yn sefydledig gyda'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio yn y lleoliad a gyda'r cleifion ers iddo agor dros bum mlynedd yn ôl. Gwelsom fod y staff yn gwybod llawer iawn am y cleifion unigol ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn y lleoliad a gan uwch-reolwyr o fewn cyfarwyddiaeth anabledau dysgu'r bwrdd iechyd. Siaradodd y staff yn ffafriol am y cymorth gan gydweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad, a gwnaethant roi gwybod bod ethos gweithio fel tîm da yn y lleoliad.

Roedd y ffordd y rheolir y lleoliad yn cael ei chefnogi gan drefniadau, polisïau a gweithdrefnau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r staff am nifer o wahanol bolisïau, nid oedd y staff yn gallu cyflwyno copi caled ohonynt na rhoi sicrwydd i ni y byddent yn gwybod ble i gael gafael ar y rhain ar fewnwyd y bwrdd iechyd.

Drwy ein trafodaethau â'r staff ac adolygu ymarfer, roedd diffyg trefniadau llywodraethu ac archwilio cadarn yn y lleoliad mewn rhai meysydd. Er bod y staff yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn ofynnol ganddynt i ofalu am gleifion a'u cefnogi o ddydd i ddydd, roedd elfen o hunanfodddhad mewn perthynas â

chwblhau'r ddogfennaeth ofynnol. Tynnir sylw at enghreifftiau yn yr adran ar Ddarparu Gofal Diogel ac Effeithiol yn yr adroddiad hwn.

Soniodd rheolwr yr uned am y prosesau a'r trefniadau llywodraethu a oedd wedi cael eu cyflwyno ac roedd angen eu hymgorffori yn y gwasanaeth ers ei benodiad diweddar. Nod y prosesau a'r trefniadau hyn yw hysbysu'r staff am y ffordd briodol o roi gofal yn y lleoliad. Disgrifiodd rheolwr yr uned a rheolwr y gwasanaeth hefyd y trefniadau llywodraethu a oedd wedi dechrau sy'n cyfrannu at drefniadau llywodraethu hierarchaidd y bwrdd iechyd.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau archwilio a llywodraethu yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y lleoliad.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd niferoedd digonol o staff yn cael eu cyflogi, gyda'r sgiliau a'r profiad cywir i ddiwallu anghenion y cleifion yn y lleoliad. Nid oedd y lleoliad yn defnyddio staff asiantaeth, ac os oedd prinder staff o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch, yna byddai staff a oedd eisoes yn rhan o'r tîm yn llenwi sifftiau gwag fel arfer, ac yn ymgymryd â sifftiau ychwanegol er mwyn cynorthwyo gyda'r diffygion staffio. Mae hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu cefnogi gan aelodau o'r staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion, a oedd wedi'i meithrin dros nifer o flynyddoedd drwy weithio yn y lleoliad gyda'r cleifion. Roedd y staff yn hyblyg gyda'u patrymau gwaith, er mwyn galluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roedd sefydlogrwydd y tîm o staff yn rhoi gofal cyson i'r cleifion ac roedd ymdeimlad gwirioneddol o ethos teuluol yn y lleoliad.

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn y lleoliad. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Nid oedd yn arfer adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd o fewn y bwrdd iechyd. Yn ystod sesiwn adborth ein harolygiad,

gwnaethom drafod buddiannau hyn gydag uwch-aelodau o'r bwrdd iechyd, yn enwedig mewn perthynas â staff sy'n darparu gofal uniongyrchol i gleifion. Gwnaethom argymhell, ar gyfer staff sydd wedi bod yn y swydd am nifer o flynyddoedd, y dylid cynnal gwiriad diweddarach er mwyn sicrhau y cynhelir diogelwch y cleifion, y staff a'r bwrdd iechyd.

Roedd y staff wedi cwblhau arfarniad blynyddol a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gyfleoedd i drafod materion yn ymwneud â'u gwaith gyda'u rheolwr.

Roedd rheolwr yr uned yn monitro cydymffurfiaeth y staff â'r hyfforddiant gorfodol. Cawsom wybod bod cyfraddau cydymffurfio yn gwella, yn enwedig gyda modiwlau e-ddysgu. Dywedodd rheolwr yr uned am y trefniadau a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y sesiynau dysgu wyneb yn wyneb yn y dosbarth, er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu mynd i'r rhain a'u cwblhau. Ar gyfer y staff hynny nad oedd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf, dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau dros hynny a sicrhau y gall y staff gwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Roedd y staff hefyd yn canmol y ffaith eu bod wedi cael hyfforddiant ychwanegol ac wedi mynd i gynadleddau a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Lleoliad Anableddau Dysgu Preswyl – Cyf 19008

Dyddiad arolygu: 02 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Lleoliad Anableddau Dysgu Preswyl – Cyf 19008

Dyddiad arolygu: 2 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amrywiaeth o fentrau hybu iechyd, diogelu a gwella sydd ar gael i gleifion yn cael eu harddangos yn y lleoliad.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae angen i wybodaeth/deunyddiau am hybu iechyd, diogelwch a gwelliant fod ar gael yn ardal y gegin.	Arweinydd y Tîm	Cwblhawyd
		Mae angen rhoi system ar waith i adolygu a sicrhau bod y wybodaeth/deunyddiau diweddaraf ar gael yn rheolaidd.	Arweinydd y Tîm	30 Mehefin 2019
		Caiff ffolderi sy'n cynnwys fersiynau safonol a hawdd eu darllen o ddeunyddiau hyrwyddo iechyd perthnasol eu datblygu a'u diweddarau.	Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019
		Atgoffir staff yn unigol mewn		31 Mai 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfarfodydd goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i roi gwybod i ymwelwyr a theuluoedd yn rheolaidd bod y wybodaeth/deunyddiau ar gael pan fyddant yn ymweld neu'n mynychu cyfarfod cleient.	Arweinydd y Tîm	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cynllun yr ystafelloedd gwely er mwyn sicrhau bod gan bob claf ddigon o le storio yn eu hystafelloedd.	4.1 Gofal ag Urddas	Aildrefnu'r lleoliad er mwyn sicrhau bod digon o le ar gael ar gyfer dillad ac eitemau personol eraill.	Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gadw preifatrwydd ac urddas y cleifion pan fyddant yn trafod eu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.	4.1 Gofal ag Urddas	Atgoffir staff yn unigol wrth gael eu goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i gadw preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth drafod gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.	Rheolwr y Gwasanaeth ac Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gyfer tywelion y cleifion.	4.1 Gofal ag Urddas	Angen gwneud lle yn y cwpwrdd storio y tu allan i'r ystafell ymolchi.	Arweinydd y Tîm	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i gleifion a'u teuluoedd am gyrrff allanol fel eiriolaeth annibynnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Ffolderi sy'n cynnwys fersiynau safonol a hawdd eu darllen o wybodaeth/deunyddiau i gael eu datblygu a'u diweddarau. Atgoffir staff yn unigol wrth gael eu goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i roi gwybod i	Arweinydd y Tîm Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth	31 Mai 2019 31 Mai 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymwelwyr / teuluoedd yn rheolaidd bod y wybodaeth ar gael pan fyddant yn ymweld neu'n mynychu cyfarfod cleient.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i gleifion a'u teuluoedd am broses Gweithio i Wella y GIG.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Dylid sicrhau bod taflenni Gweithio i Wella ar gael yn yr uned. Atgoffir staff yn unigol wrth gael eu goruchwylio ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i roi gwybod i ymwelwyr a theuluoedd yn rheolaidd bod y wybodaeth ar gael pan fyddant yn ymweld neu'n mynychu cyfarfod cleient.	Arweinydd y Tîm Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth	Cwblhawyd Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried datblygu cymhorthion cyfathrebu eraill a phasbortau cyfathrebu.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Gyda chymorth Therapi Lleferydd ac Iaith, caiff straeon synhwyrdd eu datblygu ar gyfer pob claf ar gyfer senarios priodol/gofynnol. Mae atgyfeiriadau ar gyfer cymhorthion cyfathrebu wedi cael eu gwneud (lle y bo'n briodol) i'r Gwasanaeth Cynorthwyol Electronig yn Rookwood yng Nghaerdydd ac mae treialon wedi cael eu cynnal.	Arweinydd y Tîm / Therapi Lleferydd ac Iaith	30 Medi 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n drylwyr ac yn effeithiol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Cysylltu â gwasanaethau gwesty am yr angen i wella ansawdd glanhau trylwyr arferol. Rhoi system ar waith er mwyn gwirio'r ansawdd yn dilyn gwaith glanhau trylwyr.	Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr Gwasanaeth	Cwblhawyd 31 Mai 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn dilyn amserlenni glanhau ac yn eu cwblhau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae amserlenni glanhau ar waith ac atgoffir staff yn unigol wrth eu goruchwylio ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn wythnosol. Rhoi system ar waith er mwyn gwirio'r ansawdd yn dilyn cwblhau'r amserlen glanhau.	Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth	31 Mai 2019 31 Mai 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewisiadau bwyd y cleifion yn cael eu cofnodi'n briodol er lles y claf, ac nid er lles y staff.	2.5 Maeth a Hydradu	Atgoffir staff yn unigol wrth eu goruchwylio ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i gydymffurfio â'r cynllun bwyd a ddatblygwyd gan arweinydd y tîm ac a gymeradwywyd gan staff ddeieteg. Cynnal adolygiad o'r ymarfer	Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019 30 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>presennol er mwyn canfod pam bod y staff yn gwyro oddi ar y cynlluniau bwyd a'r rhesymeg dros y newidiadau.</p> <p>Rhoi unrhyw argymhellion o ganfyddiadau'r arolygiad ar waith.</p>	<p>a Rheolwr y Gwasanaeth</p> <p>Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth</p>	31 Gorffennaf 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff bob amser yn cwblhau'r holl adrannau perthnasol ar y siart meddyginiaeth yn ôl polisi'r bwrdd iechyd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Arweinydd y Tîm i archwilio'r siartiau MAR o leiaf unwaith yr wythnos, cofnodi unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau gydag aelodau o'r staff cyfrifol a chyflwyno adroddiad digwyddiadau drwy'r system Datix ar gyfer unrhyw gamgymeriadau.</p> <p>Atgoffir staff yn unigol wrth eu goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i gwblhau'r holl adrannau perthnasol ar y siart meddyginiaeth bob tro.</p>	<p>, Arweinydd y Tîm</p> <p>Arweinydd y Tîm a Rheolwr y Gwasanaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Mai 2019</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau dogfennaeth monitro'r cleifion neu'n rhoi rhesymau pan nad oeddent yn gallu gwneud.	3.5 Cadw cofnodion	Atgoffir staff yn unigol wrth gael eu goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm i gwblhau'r holl ddogfennaeth fonitro fel sy'n ofynnol ac eir i'r afael â hepgoriadau drwy oruchwyliaeth unigol gyda'r aelod o'r	Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>staff cyfrifol.</p> <p>Archwilio dogfennaeth reolaidd i'w chynnwys yn sesiynau goruchwyllo staff unigol</p>	Arweinydd y Tîm	31 Mai 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei storio mewn ffordd systematig yng nghofnodion y cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	<p>Yr holl gofnodion i gael eu hadolygu er mwyn nodi'r wybodaeth gyfredol a'r wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth i roi cymorth gweinyddol penodol i ad-drefnu'r ffeiliau.</p>	<p>Arweinydd y Tîm a'r Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr Cymorth</p>	<p>30 Mehefin 2019</p> <p>30 Mehefin 2019</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu defnyddio'r cyfleuster archifo er mwyn cadw cofnodion yn effeithiol yn y lleoliad.	3.5 Cadw cofnodion	Cyfleuster archifo i gael ei nodi ar gyfer ffeiliau hanesyddol.	Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	30 Mehefin 2019
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau archwilio a llywodraethu yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y lleoliad.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Atgoffir staff yn unigol wrth eu goruchwyllo ac ar y cyd mewn cyfarfodydd tîm am ble y gellir cael gafael ar bolisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau'r Bwrdd Iechyd o fewn yr uned ac ar y fewnwyd.</p> <p>Angen datblygu siart lif i helpu'r staff i ddod o hyd i bolisiâu perthnasol.</p>	<p>Arweinydd y Tîm; Rheolwr Gwasanaeth;</p> <p>Prif Nyrs</p>	<p>31 Mai 2019</p> <p>30 Tachwedd 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff hanfodion Archwiliadau Gofal eu cyflwyno i fonitro metrigau priodol a pherthnasol ar gyfer yr uned.	Proffesiynol Anableddau Dysgu; Pennaeth y Gwasanaeth; Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Prif Nyrs Proffesiynol Anableddau Dysgu; Pennaeth y Gwasanaeth; Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	30 Tachwedd 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol diweddaraf.	7.1 Y Gweithlu	Mae cydymffurfiaeth wedi gwella o 32% ym mis Awst 2018 i 71% ym mis Mai 2019. Rhaglen Gwella Cydymffurfiaeth a ddechreuodd ym mis Awst 2018 i barhau i fonitro a chefnogi staff i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol er mwyn cyrraedd targed y	Arweinydd y Tîm; Rheolwr Prosiect; Rheolwr Gwasanaeth; Rheolwr Busnes Anableddau	30 Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bwrdd Iechyd o 85% o fewn chwe mis.	Dysgu	Cwblhawyd
		Atgoffir staff o gyfrifoldebau a gwerth cwblhau hyfforddiant gorfodol yn fisol drwy femorandwm gan reolwr y gwasanaeth.	Arweinydd y Tîm; Rheolwr Gwasanaeth;	Cwblhawyd
		Eir i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio drwy oruchwyliaeth unigol gyda'r aelod cyfrifol o'r staff	Arweinydd y Tîm; Rheolwr Gwasanaeth;	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Melanie Evans

Teitl swydd: Pennaeth y Gwasanaeth

Dyddiad: 17 Mai 2019